

Y TYST

Sefydlwyd 1867 Cyfrol 154 Rhif 50 Rhagfyr 16, 2021 50c.

DYDD GWEDDI'R BYD IS-BWYLLGOR CYMRAEG

Cynhaliwyd cynhadledd rithiol dros Zoom ar 24 Tachwedd. Cynhadledd ydoedd yn seiliedig ar thema a ddewiswyd gan wragedd Cristnogol Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon.

Pwysleisiwyd ar y dechrau bod y testun wedi ei seilio o adnod o Jeremeia sef 'Myfi sy'n gwybod fy mwriadau a drefnaf ar eich cyfer,' Jeremeia 29:1-14. Dyma adnod sy'n llawn gobaith ac fe gafwyd hynny yn weledol drwy sgrin ein cyfrifiadur. Bu'r cwbl yn fodd i ddod a gobaith, gwelwyd symbol o obaith gan Miriam Lewis, y llywydd wrth iddi gynnau saith kannwyll ar adegau arbennig trwy'r gwasanaeth. Esboniodd y llun ar flaen y daflen am wasanaeth 2022. Cynlluniwyd clawr y rhaglen gan yr artist Angie Fox, trwy ddefnyddio tecstilau, brodwaith appliqué a gwaith metel Mae'r artist wedi dewis nifer o ddelweddau i ddarlunio'r allweddeiriau sef:

rhyddid – drws sydd yn agor ar lwybr dros ehanger diderfyn.

cyfiawnder – cadwyni wedi'u torri.

tangnefedd Duw a maddeuant – colomen heddych a lili heddych yn torri drwy'r palmant.

Dros y cyfan y mae enfys sydd wedi cynrychioli'r pethau hyn ers stori Noa a hyd heddiw. Arwydd o gyfamod Duw â dyn, a bellach mae'n arwydd o undod rhwng gwahanol rannau o'n cymuned.

Cynrychiolaeth

Cymerwyd rhan yn y gynhadledd rhithiol gan gynrychiolaeth o'r pwyllgor ledled Cymru, bu i holl aelodau'r pwyllgor, y rhai oedd yn medru bod hefo ni, wneud eu gwaith yn ardderchog a heb drafferth. Hyfryd iawn oedd cael gweld a chael cyfraniad pwysig gan Gwen Wildman ein cynrychiolydd ar y pwyllgor cenedlaethol yn Llundain. Dangosodd Gwen sleidiau a'r Parchedig Carys Ann yn chwarae'r CD i gyd-fynd â'r sleidiau. Gweithiodd yn rhyfeddol gan gysidro fod Gwen yn Llundain a Carys



Ann yn Rhydlewis, Llandysul. Mae CD ROM y sleidiau, â'r CD cerddorol ar gael trwy gysylltu â'r swyddfa ganolog yn Tunbridge Wells (01892) 541411 www.wwdp.org.uk

Gwerthfawrogir yr holl waith paratoi ymlaen llaw ar y gwasanaeth hwn gan y cyfieithydd Beryl Steeden Jones, yr ysgrifennydd Mary Thomas, a'r trysorydd Margaret Morgan a fu'n canu unawd yn y gwasanaeth er mwyn ein cynorthwyo i baratoi o flaen llaw ar gyfer mis Mawrth 2022.

Gwerthfawrogwyd cyfraniad pawb i'r gwasanaeth bendithiol iawn a gafwyd, yn arbennig y gobaith oedd yn sefyll allan wrth fynd drwy yr oedfa ar gyfer ein paratoi erbyn dydd Gwener 4 Mawrth, 2022.

Os dymunwch gael copi o raglen y gwasanaeth y mae croeso i chwi eu harchebu trwy gysylltu â Margaret Morgan, Llety'r Bugail, 1 Cwrt Eden, Gwersyllt, Wrecsam LL11 4FF. Ffôn: (01978) 756717 E-bost: margaretmaudmorgan@gmail.com

**Parchg Beti-Wyn James
Parchg Carys Ann
Swyddogion Cyhoedduswydd**

Argyfwng yr amgylchedd

Pan ofynnwyd imi ysgrifennu erthygl fer ar effaith cynhesu byd-eang ar amaethyddiaeth, fy ymateb cyntaf oedd gwrthod gan nad wyf yn arbenigwr ar y pwnc, ond o ailfeddwl, meddyliais yr hoffwn dynnu sylw at rai agweddau anuniongyrchol sydd ag effaith andwyol ar ffermio a'n cymunedau ni yng Nghymru.

Cefndir

I roi ychydig o gefndir, mae pob planhigyn gwyrdd, yn cynnwys chloroffyl, sydd yn galluogi i'r planhigyn gymryd carbon deuocsid i mewn o'r awyr, ei droi'n fwyd, a'i storio yn y gwreiddyn. Yn y broses hon o ffotosynthesis mae ocsigen yn cael ei rhyddhau i'r awyr. Mae'n hollol eglur bod y broses yma o storio carbon deuocsid yn llesol iawn i'r amgylchedd, a dyna paham mae fforestydd mawr yr Amazon a gogledd Canada yn cael eu galw'n ysgyfaint y byd. Maent yn dod ag ocsigen i'r holl ddaear, yn llythrennol.

Bwriadau da

Er mwyn ceisio troi'r cloc yn ôl ychydig ar ein hargyfnwg amgylcheddol, rhaid inni barchu ein coedwigoedd ac mae galw arnom i blannu mwy o goed. Mae hyn yn beth rhesymol iawn i'w wneud, ac mewn tegwch mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi targedau yr hoffent weld 160,000 o hectarau o goed wedi'u plannu yng Nghymru. Gan dderbyn mai cyfartaledd maint ffermydd yng Nghymru yw 42 ha, mae hyn yn golygu oddeutu 4,000 o ddaliadau h.y. 4,000 o deuluoedd. Wrth gwrs wrth roi'r targedau hyn, dyw'r Llywodraeth ddim yn golygu plannu

parhad ar dudalen 2



Addysg Ddiwinyddol ar gyfer 'Economi Bywyd'

*Dyma ail ran yr erthgyl
gan Richard Morgan*

Uned 2

Amcan yr uned yw cynnig y gwerthoedd, yr wybodaeth a'r sgilliau y mae eu hangen ar y Cristion sy'n chwilio am ffyrdd newid o drefnu'r byd yn economaidd, sef 'economi bywyd'. Mae'r ffyrdd amgen hyn yn seiliedig ar y syniadau canlynol:

- anghenion pobl
- heddwch yn seiliedig ar gyfiawnder
- cyfranogaeth
- cynaliadwyedd
- parch tuag at urddas dynol
- parch tuag at yr amgylchedd
- atebolrwydd i'n gilydd
- gweithio er lles *pawb*

Yn yr ail uned cyflwynir chwech o fodiwlau. Y mae yma sylfeini beiblaidd a diwinyddol i'r syniad o 'nefoedd newydd a daear newydd', a datblygir y syniad o 'ardd Duw a dinas y ddynoliaeth'. Canolbwynt yr uned yw astudiaeth gritigol o'r dulliau cyfoes o greu cyfoeth sydd yn rhoi'r flaenoriaeth i gyfalaf dros lafur.

Yn hytrach (ym modiwl 4) yr hyn sydd ei angen yw blaenoriaethu llafur a chynnig dulliau mwy cynaliadwy o fyw. Pwysleisir yr angen am symud i ffwrdd o'r modelau sydd yn arian-ganolog ac sy'n rhoi sylw i dwf economaidd uwchben popeth arall. Ym modiwl 6 cawn eglurhad ar sut y mae damcaniaethau a dulliau economaidd yn dylanwadu ac yn datblygu systemau economaidd a chymdeithasol, megis cyfalafiaeth, sosialaeth a chomiwnyddiaeth. Dangosir hefyd sut y gwneir defnydd o grefydd, technoleg gwybodaeth a'r cyfryngau torfol i rymuso'r gyfundrefn yr ydym yn rhan ohoni. Mae'r modiwl yn terfynu trwy awgrymu bod datblygu ffurfiau amgen yn cynnig potensial i herio'r pwerau sy'n dominyddu'r byd.

Uned 3

Amcan y drydedd uned yw datblygu'r syniad o *ekkesias* wahanol sydd yn gwireddu'r addewid beiblaidd o



'nefoedd newydd a daear newydd' fel dathliad o'r addewid 'yr wyf fi wedi dod er mwyn i *bawb* gael bywyd, a'i gael yn ei holl gyflawnder.' (Ioan 10:10) Cyflwynir syniadau gobaith megis codi o farwolaeth i fywyd, gwrthdrawiad wrth broffwydo, iachau ac adferiad.

Mae'r uned yn cynnwys pum modiwl o dan y penawdau canlynol:

- mudiadau cymdeithasol byd-eang
- trefnu cymunedol
- adeiladu'r amgen
- proffwydo cymdeithasol
- profiadau cymunedau sy'n hybu egwyddorion 'economi bywyd'

Dyma fannau gobaith mwyaf dylanwadol y cwricwlwm hwn. Cawn adolygiadau o'r cyrff hynny sy'n gweithio tuag at greu pensaernïaeth ariannol newydd ac sy'n rhoi sylw dyladwy i syniadau o degwch, cyfiawnder a pharch ecolegol. Rhoddir sylw arbennig i'r mudiadau wrth-globaleiddio, mudiadau sy'n pwysleisio hawliau tir a mudiadau sy'n hybu masnach fwy cyfiawn. Rhoddir sylw hefyd i sgiliau penodol wrth herio'r gyfundrefn economaidd gyfoes, sef rhwydweithio, eiriolaeth, dylanwadu trwy lobio, creu cyd-ddibyniaeth ac adeiladu cynghreiriau. Yn y modiwl olaf cawn gyflwyniad i'r wleidyddiaeth, y foesoldeb a'r arfer sydd ynghlwm wrth y broses o adeiladu cymunedau sy'n adlewyrchu egwyddorion 'economi bywyd'. Diddorol nodi bod cymunedau o'r fath yn cael sylw priodol yn nogfen strategol CWM ar gyfer y cyfnod 2020–29 (*Life-flourishing communities*).

Dymunwn yn dda i'r tair prifysgol ar draws y byd sydd wedi cytuno i fabwysiadu'r cwricwlwm hwn. Edrychwn ymlaen at dderbyn yr ymateb

Argyfwng yr amgylchedd – *parhad*

ffermydd cyfan o goed, ac mae lle ar bob fferm i blannu ychydig mwy o goed – a da fyddai hynny.

Gwreiddyn y drwg

Ond mae'r cwmnïau mawr (o Loegr fel arfer) wedi gweld cyfle fan hyn, ac er mwyn gwneud eu busnesau – yn enwedig y cwmnïau hedfan sy'n defnyddio tanwydd ffosil – maent am brynu ffermydd cyfan yng Nghymru a'u plannu â fforestydd coed i leihau ôl traed eu carbon. *Carbon offsetting* yw'r term am wneud hyn, maen nhw'n rhoi rhywbeth yn ôl yn sgil eu defnydd trwm o danwydd ffosil a'u hallyriadau carbon uchel.

Canlyniadau

Paham Cymru? Wel mae pris tir yn is ar gyfartaledd, ac mae'r llywodraeth yn fodlon rhoi cymhorthdal i blannu coed. Mae'r sefyllfa hon yn hollol annerbiniol. Yn y lle cyntaf nid ydynt yn lleihau'r broblem drwy arllwys tunelli o danwydd i'r amgylchfyd, ac yn ail byddent yn hollol fodlon i weld Cymru yn goed o un pen i'r llall, gan anghofio yn llwyr am golli teuluoedd o'r tir, a rhadi cofio mai Cymry sydd yn ffermio fwyafirif o'r tir, ac onid dyma gadarnle'r iaith Gymraeg?

Digon yw digon. Nid yw Cymru at ddefnydd mympwy eraill, rhaid i'r llywodraeth wneud rhywbeth yn awr, mae tair fferm fawr yn ein hardal ni ym Myddfai, eisoes wedi eu gwerthu ar gyfer y pwrpas hwn, NAWR yw'r amser i weithredu.

**Lyn Lewis Richards BSc (Hons)
F.R.Ag.S**

*Mae Lyn yn ddiagon yn Seion, Myddfai,
yn ffermwr a darlithydd rhan-amser yng
ngholeg Gelli Aur*

i'r gwaith arloesol hwn, gan obeithio y gwelir defnydd ehangach o adnodd sydd yn ein harwain i herio y gyfundrefn economaidd ac ariannol yr ydym yn rhan annatod ohoni ac i geisio adeiladu pensaernïaeth newydd lle mae tegwch, cyfiawnder a pharch ecolegol yn cael y sylw pennaf.

Yr Adran Gydenwadol

Arian, Arian, Arian

Yn yr erthygl hon mae Aled Davies yn ystyried rôl 'arian' yn ein bywydau personol ac ym mywyd ein heglwysi.

Wrth agosáu at y Nadolig, bydd pwysau mawr ar rieni i wario ar y teclynnau a'r teganau diweddaraf ar gyfer eu plant, ac yn sgil hynny bydd llawer yn wynebu blwyddyn gyda biliau cardiau credyd na fydd modd eu had-dalu, fydd yn bwrw llawer i ddeddion a thrafferthion ariannol. Ers mis fe'n syrffedwyd gan hysbysebion di-baid y 'Dydd Gwener Du' – un diwrnod sydd bellach wedi troi yn fis o bwysau diddiwedd i wario ar y fargen sy'n 'gynnig rhy dda i'w wrthod'. Cofiaf y dyfyniad gan yr ymgynghorydd ariannol Dave Ramsey, "We buy things we don't need with money we don't have to impress people we don't like". Mae hyn yn swnio mor wirion, ac eto, mae'n debyg ein bod ni i gyd wedi bod yn euog o wneud hynny ar ryw adeg.

Diolchwn am waith yr elusen Gristnogol Christians Against Poverty (CAP), sy'n cynnig cymorth ymarferol ar sut i osgoi mynd i ddyled a sut i ddod allan o grafangau dyled. Mae ganddynt linell gymorth a thîm o gynghorwyr arbenigol sydd wrth law i gynnig cymorth ymarferol i'r sawl sy'n cael eu hunain mewn trafferthion. Maent yn darogan y bydd mwy o bwysau arnynt nag erioed o'r blaen yn gynnar yn 2022, yn dilyn gorwario cynyddol dros gyfnod y Nadolig. Am fwy o wybodaeth am eu gwaith, ewch i wefan www.capuk.org.

Fel eglwysi a Christnogion, dydyn ni ddim bob amser yn barod i sôn ryw lawer am bres ac arian. Tra mae 'na bynciau 'rhinweddol' i'w trafod – fel gweddi, darllen y Beibl, ein hymddygiad moesol ac ysbrydol, mae 'na awgrym fod trafod pres ac arian a chyfoeth yn faterol a bydol. Eto, wrth i ni ddarllen yr efengylau, fe sylwn fod gan Iesu lawer iawn mwy i'w ddweud am arian a chyfoeth, a'n defnydd neu'n camddefnydd ni ohonynt, nag oedd ganddo i'w ddweud am bynciau fel gweddi, er enghraifft. O 'beidio casglu trysorau' ar ein cyfer ein hunain, o 'anwybyddu a cham-drin y tlawd', o beidio â 'gwasanaethu dau feistr', mae Iesu'n ein herio ni dro ar ôl tro i ddangos haelioni a thrugaredd.

Mae ei esiampl tra oedd ar y ddaear, a'i anogaeth i beidio â hawlio mwy na'r hyn sydd ei 'angen ar gyfer y daith', yn her wirioneddol i bob un ohonom. Yn ei ddamhegion, y cyfoethog sy'n methu cyrraedd teyrnas nefoedd, gan ddweud y byddai'n haws 'i gamel fynd drwy grau nodwydd nag i ddyd cyfoethog fynd i mewn i deyrnas nefoedd'. Tra mae pwyslais y Beibl ar beidio â rhoi ein bryd ar y pethau mae 'gwyfyn a rhwd yn difa',



mae pwyslais 'cymdeithas' yn mynnu ein bod yn ceisio byw yn annibynnol ac yn ffyniannus. I Iesu, mae rhoi pwyslais ar lwyddiant materol yn dangos diffyg ffydd ac ymddiriedaeth ynddo ef, a'i allu i'n cynnal yn ysbrydol ac yn faterol.

Er dechrau gwareiddiad mae casglu a datblygu'r defnydd o arian wedi bod yn rhan o feddylfryd y ddynoliaeth. O fetelau gwerthfawr fel aur a gemau prin fel diemwntiau, maen nhw wedi bod yn symbolau o lwyddiant a grym. Roedd gwisgo sidan a lliain main, addurno'r corff â gemwaith a metelau drudfawr yn ddatganiad o lwyddiant a phwysigrwydd o ddyddiau cynnar iawn.

Yn ôl cân y grŵp Abba, 'Money, money, money', mae popeth yn ymddangos yn heulog braf ym myd y dyn cyfoethog.

Always sunny in the rich man's world.
A-ha – all the things I could do
If I had a little money;
It's a rich man's world.

Eto, mae'r realiti yn wahanol iawn yn hanes cynifer. Faint o enillwyr y loteri aeth i ddigalondid mawr, yn gaeth i gyffuriau a gamblo? Bydd llawer o enwogion o fyd chwaraeon a chanu pop, sy'n gwneud eu ffortiwn mewn cyfnod byr iawn, yn aml yn colli'r cyfan ac yn chwilio am rywbeth amgenach na bywyd llawn golud a chyfoeth. Do, profwyd droeon nad yw cyfoeth yn sicrhau hapusrwydd na bodlonrwydd, a bod llawer yn dyheu am fywyd mwy rhinweddol a charedig. Ychydig iawn o sylw a roddwn i hyfforddi pobl ynghylch sut i wario a buddsoddi'n ddoeth, a gwneud yn fawr o'r adnoddau sydd ganddynt, heb ei wastraffu'n afradlon fel yn hanes y mab hwnnw a wariodd holl ffortiwn ei dad.

Ond beth am ein defnydd ni o arian yn ein bywydau bob dydd? Os credwn mai Duw, creawdwr daear a nef, sy'n berchen arnom ni a phopeth a feddwn, onid yw hynny'n herio ein persbectif ar fywyd? Cyfeiriwn yn aml fod y blaned wedi ei 'hymddiried i'n gofal' dros dro. Onid yw hynny hefyd yn wir am bopeth rydyn ni'n berchen arno o fewn y blaned

honno? Darllenais yn ddiweddar ddyfyniad yn dweud: petai'r deg person mwyaf cyfoethog yn y byd yn rhoi 10% o'u cyfoeth i ddileu tlodi yn y byd, byddai hynny'n ddigon i ddatrys y broblem! Mae hynny'n syfrdanol, ac efallai'n pwysleisio'r annhegwch mawr sydd yn ein byd. Ond mewn byd lle cyfeirir at arian yn nhermau miliynau, biliynau a thriiliynau, pa wahaniaeth fedr ein ceiniogau ni ei wneud? Y gwir amdani yw y gall pob un ohonom wneud gwahaniaeth, o gymryd ein stiwardiaeth Gristnogol o ddifri.

Cefnogi elusennau

Does dim amheuaeth nad yw nifer o elusennau wedi eu heffeithio'n ddrwg gan ddwy flynedd o bandemig a chyfnodau clo, ac yn fwyaf arbennig, elusennau llai a lleol, sy'n fwy dibynnol ar ddigwyddiadau lleol fel boreau coffi, teithiau cerdded a chyngherddau fel ffordd o godi arian. Bydd eglwysi hefyd yn cynnal nifer o gasgliadau'n flynyddol at elusennau Cristnogol, ond wrth i wasanaethau fod ar lein, a llai o gynulleidfa yn y capel, mae nifer o elusennau ar eu colled oherwydd hyn. Dyma rywbeth i swyddogion eglwysi ei ystyried efallai wrth roi trefn ar gyfrifon ar ddiwedd blwyddyn.

Tlodi lleol a bancau bwyd

Mae'n debyg fod bywydau'r rhan fwyaf ohonom sy'n aelodau yn y capeli Cymraeg yn weddol gyfforddus. Mae eithriadau wrth gwrs, ond ar y cyfan mae ein cynulleidfaoedd yn weddol gyfforddus a ffyniannus. O'r herwydd gall fod yn anodd deall agweddau ar y tlodi enbyd sydd ar stepen ein drws erbyn hyn. Bydd rhai eglwysi wedi ymdaflu i'r gwaith elusennol o redeg bancau bwyd, ac felly'n deall yn iawn yr heriau anferth sydd yna i fwydo teuluoedd sydd rywsut o dan y radar ac wedi disgyn drwy rwydi diogelwch buddiannau a nawdd. Bydd llawer o rieni sengl yn ennill cyflog rhan-amser pitw, ac yn brwydo i gynnal eu teulu, a loes calon yw clywed tystiolaeth rhieni sy'n mynd heb fwyd er mwyn bwydo'u plant. Tydi dewis rhwng bwydo'r teulu a gwresogi'r cartref ddim yn ddewis mewn gwirionedd. Her i bob un ohonom yw bod yn effro i dlodi o'n cwmpas, a meddwl am ffyrdd creadigol a charedig i helpu a chynnal baich y bregus a'r anghenus.

Trysoryddion ein heglwysi

Ers dechrau'r pandemig fe aeth llawer o eglwysi i gyfarfod yn rhithiol, ac mae hynny wedi profi'n llwyddiant ysgubol yn hanes llawer. Gwelwyd cynnydd mewn niferoedd, â chynulleidfaoedd yn hoffi cyfleustra addoli ar yr aelwyd. Ond bu hynny'n dipyn o her i sawl trysorydd, a welodd y casgliadau'n lleihau ac aelodau'n anghofio am yr angen i gyfrannu. ([parhad ar y dudalen nesaf](#))

Arian, Arian, Arian

(parhad o dudalen 1)

Gwyddom am sawl cylch lle bu cynnal gweinidog a gwaith yr eglwys yn her fawr o'r herwydd. Bu i ambell un gredu, gan nad oedd yr eglwys yn cyfarfod wyneb yn wyneb, nad oedd angen cyfrannu, ond mae costau cynnal eglwys yn parhau wrth gwrs. Wrth i ni nesáu at ddiwedd blwyddyn, rwy'n siŵr y bydd pob trysorydd eglwys yn ddiolchgar o dderbyn eich rhoddion, cyn cau'r llyfrau ar 2021.

Heriau cyfrifon banc

Yn ddiweddar, mae llawer o eglwysi ac elusennau wedi cael llythyrau gan fanc yr HSBC yn sôn am gostau misol o £5, a thâl o 40c am brosesu sicciau, heb sôn am godi comisiwn am dalu pres parod i mewn a hefyd wrth dynnu pres allan. Wedi blynyddoedd o ffioedd bancio am ddim, daw hyn fel tipyn o sioc.

Gyda chostau arfaethedig o oddeutu £100 i gadw cyfrif ar agor am flwyddyn, efallai y gellir edrych ar opsiynau eraill. Mae ambell gyfri ar gael ar y we sydd heb unrhyw gostau,

ac ambell fanc yn dal i gynnig bancio am ddim i elusennau (ond nid oes sicrwydd o hynny chwaith yn y tymor hir). Ystyriaeth arall i sawl eglwys yw a oes modd cyfuno cyfrifon? Mae gan ambell eglwys hyd at bum cyfrif, rhwng yr ysgol Sul, clwb ieuencid, y chwirydd, cyfri'r organ, yr adeiladau, ayyb. A oes angen yr holl gyfrifon unigol hyn, tybed? Gellid arbed costau drwy greu un cyfrif ar gyfer gweithgaredd yr eglwys, gan gadw mantolenni gwahanol er mwyn dangos lle mae'r gwariant wedi bod. O gofio cost prosesu sicciau, mae troi at gyfri bancio ar y we hefyd yn ffordd arall o arbed costau, gan dalu pregethwyr a biliau eraill drwy BACS yn lle sic.

Tlodi byd-eang

Mae'r eglwys wedi bod yn flaengar ynghylch ceisio dileu tlodi byd ar hyd yr amser. O eiriau proffwydol Amos yn tynnu sylw at annhegwch mawr ei gyfnod, i eiriau condemnol Iesu am y rhai sy'n gorthrymu'r tlawd, mae'r neges yn glir: nid yw Duw am weld tlodi ac anghyfiawnder yn y byd. Mae'n dyheu am ein gweld ni'n gweithio gyda'n gilydd i greu byd tecach a chyfiawn, lle mae pawb yn cael cynhaliaeth a gofal.

Diolchwn am waith mudiadau fel Cymorth Cristnogol, Oxfam, Wateraid, Achub y Plant, Tearfund, y Groes Goch ac eraill. Diolch am bob ymdrech i godi arian a hefyd i addysgu pobl y byd ym maes dileu tlodi. Cofiw'n eiriau'r ddihareb a ddefnyddiwyd fel slogan gan Gymorth Cristnogol droeon: 'Rhowch bysgodyn iddo, caiff fwyd am ddiwrnod; dysgwch ef sut i bysgota, a bydd ganddo fwyd am oes.' Tristwch, serch hynny, yw clywed pobl, gan gynnwys Cristnogion, yn gwadu gwerth cefnogi'r mwyaf bregus yn ein byd, ac mai gwell fyddai cynnal a gwella'r cyfleusterau yn ein gwlad ein hunain.

Mae geiriau Iesu yn sefyll: 'Peidiwch casglu trysorau i chi'ch hunain yn y byd yma. Mae gwyfyn a rhwd yn gallu eu difetha, ac mae lladron yn gallu dod a'u dwyn. Casglwch drysorau i chi'ch hunain yn y nefoedd – all gwyfyn a rhwd ddifetha dim byd yno, a does dim lladron yno i ddwyn dim byd. Lle bynnag mae dy drysor di y bydd dy galon di.' Rhown ein bryd ar Iesu a'r digonedd a geir ynddo ef.

Cymru a'r eglwys yn codi eu llais yn COP26

Ym Mwletin Polisi Cytûn, mis Rhagfyr, ceir adroddiad a lluniau gan Gethin Rhys, Swyddog Polisi Cytûn, fu yng nghynhadledd COP 26 yn Glasgow

Ar adegau, roedd cynhadledd hinsawdd fyd-eang COP26 yn teimlo fel gŵyl grefyddol. Roedd nifer o eglwysi dinas Glasgow wedi croesawu mudiadau megis aelodau Cytûn, Cymorth Cristnogol, CAFOD ac AROCHA UK i sefydlu gofod swyddfa ar gyfer y trafodaethau, lle i gynnal digwyddiadau cyhoeddus a man i'r cyhoedd addoli a gweddio wrth i'r trafodaethau fynd yn eu blaen. Doedd dim amheuaeth nad oedd miloedd o bobl o bob rhan o'r byd yn credu mai trafod Cread Duw oedd y gynhadledd, ac nid yn unig faterion gwyddonol, economaidd a gwleidyddol.

Yn y llun dangosir stonin Sul yr Hinsawdd ynghyd â'n cymdogion o Weriniaeth Palau, ynysoedd yn y Môr Tawel sydd ymhlith y gwledydd sy'n dioddef waethaf eisoes o ganlyniad i'r argyfwng hinsawdd. Yn wir, yn y trafodaethau swyddogol ar 2 Tachwedd, fe [ddywedodd](#) eu Harlywydd, Surangel Whipps Jr, 'Nid oes dim urddas

mewn marwolaeth araf a phoenus. 'Run man i chi fomio ein hynyoedd yn hytrach na gwneud i ni ddioddef a gwylio ein tranc araf.' Ac eto, bu cynrychiolwyr yr ynysoedd hyn – y mwyafrif llethol yn Gristnogion – yn gymdogion llawen ac urddasol i ni yn y neuadd arddangos.

Wrth gloi'r adroddiad o Glasgow mae Gethin Rhys yn annog yr eglwysi i gadw'r momentwm a'r diddordeb o blaid materion yr amgylchedd ac i wneud y canlynol:

- parhau i ddefnyddio adnoddau rhagorol Sul yr Hinsawdd a gwahodd eglwysi eraill o bob enwad i gydwethio ar gyfer gweddi, cefnogaeth ac annog eich gilydd;
- cofrestru ar gyfer cynllun [Eco-Eglwys](#). A fedrai Eco-eglwys fod yn brosiect Adfent i'ch eglwys eleni? A gallech anelu at ennill y wobr Efydd erbyn Sul y Cread fis Medi nesaf.

Mae Sul yr Hinsawdd yn [cymell ei gefnogwyr](#) i wneud tri pheth dros yr wythnosau nesaf:

- anfon neu lofnodi [cerdyn Nadolig Clymblaid yr Hinsawdd](#) at Boris Johnson AS;
- [ysgrifennu at eich AS yn San Steffan](#) yn gofyn iddo/iddi weithredu i 'gadw 1.5 gradd yn fyw'.
- cofrestru ar gyfer gweminar [Sul yr hinsawdd – Beth Nesaf](#) ar 20 Ionawr am 7yh.



PA DDYFODOL I ADEILADAU EGLWYSIG CYMRU?

Dyna'r Cwestiwn mawr a ofynnir wedi Covid mewn cornel fach yn y *Bwletin!* Tynnir sylw yno at nifer o drafodaethau sy'n digwydd ar hyn o bryd am ddyfodol ein lleoliadau cymunedol. Un peth y gallwn ni i gyd ei wneud yw cwblhau [Arolwg Cymraeg gan Fywydau Creadigol](#) am y cwestiynau sy'n wynebu grwpiau creadigol a lleoliadau wedi Covid – llawer o'r lleoliadau hynny'n addoldai neu'n neuaddau cymunedol eglwysig. Mae'r arolwg yn cau ar 17 Rhagfyr.

I ddarllen yr adroddiadau o Glasgow, am fanylion ehangu rhaglen weithredu llywodraeth Cymru a hynt y Cwriclwm newydd i Gymru a'r Bwletin yn llawn ewch i: [Bwletin Polisi Rhagfyr 2021 – Eglwys Ynghyd yng Nghymru | Churches Together in Wales \(cytun.co.uk\)](#)

S4C

Sul, 19 Rhagfyr, am 7.30yh
(ailddarlledir y Sul canlynol am 11.30yb)

Daw'r rhaglen yr wythnos hon o Eglwys yr Holl Saint, Ystumllwynarth, wrth i ni ddathlu'r Nadolig. Cawn fwynhau perfformiadau arbennig, a darlenniadau amserol a chydanu carolau gyda'n gilydd.

Dyma gopi o gylchlythyr mis Rhagfyr:
<https://spark.adobe.com/page/QpwoYUGORAPqV/>

BBC radio cymru

Radio Cymru

Sul, 19 Rhagfyr – *Caniadaeth y Cysegr*, 7:30yb a 4:40yp.

Yr Esgob Barry Morgan a chantorion 'Yr Wyth' fydd yn cyflwyno detholiad o garolau a darlenniadau pwrpasol ar gyfer y Nadolig

Sul, 19 Rhagfyr – *Oedfa Radio Cymru*, 12:00yp

Y Pedwerydd Sul yn yr Adfent. Yr olaf o gyfres o oedfaon o'r gwledydd Celtaidd. Awn i Lydaw i gyfarfod Llewenn Steffan a bydd hithau'n canu ei threfniannau personol o ambell garol adnabyddus.

Tywysog Tangnefedd mewn Byd o Ryfeloedd

A ninnau yn nhymor yr Adfent, fe fyddwn yn parhau â'r gyfres o fyfyrddodau o'r gyfrol *The Prince of Peace in a World of Wars* gan David Kerrigan.

7 Saint yn ceisio heddwch

Hanna: heddwch gyda chalon ddolurus

Darllen: 1 Samuel 1:1-8

Bob tro yr oedd Elcana'n offrymu, byddai'n rhannu darnau o'r offrwm i'w wraig Peninna ac i bob un o'i bechgyn a'i merched; ond un darn a roddai i Hanna, er mai hi a garai, am fod yr ARGLWYDD wedi atal iddi gael plant. (adn 4-5)

Buaswn wrth fy modd pe gallwn gyfarfod Hanna. Erei bod yn rhwystredig am nad oedd ganddi blant, gwyddai fod ei gŵr, Elcana, yn ei charu. Ond teimlai'n glwyfedig oherwydd pryfocio gwraig arall Elcana, Pennina. (Nid dyma'r lle i drafod 'golwg Feiblaidd draddodiadol o briodas', ond mae'n amlwg fod angen pwyll wrth ddefnyddio'r ymadrodd yma!) Mae'r ysgrifennwr yn syml yn derbyn diwinyddiaeth ddiodyn y cyfnod, 'fod yr Arglwydd wedi atal iddi gael plant' (adn 6), a dyma fuasai cred Hanna hefyd.

Dywedir wrthym fod Hanna mewn tralldod yn y deml: iddi weddio ac wylo'n hallt (adn 10). Pan welodd Eli, yr offeiriad, hi gyntaf, fe gamddeallodd y sefyllfa a chredu ei bod yn feddw. Ond yna fe'i bendithiodd a dweud wrthi am ymadael mewn heddwch. Ymhen amser byr, neu felly yr ymddengys, atebwyd ei gweddïau a bu i Hanna feichiogi, a ganwyd ei mab Samuel. Ymhen amser byddai Samuel yn dod yn un o wŷr mawr Duw.

Fel mewn llawer o straeon Beiblaidd, cofnodir y digwyddiadau yma oherwydd eu bod yn cynrychioli datblygiadau allweddol ym mywyd pobl Dduw ac oherwydd eu bod yn aml yn amlygu'r gwirionedd fod Duw yn ateb gweddïau; yn wir, does dim yn amhosibl gyda Duw. Mae angen inni fod yn gyfarwydd â'r gwersi yma, a thrwy'r weithred o gredu, mae ein ffydd yn cael ei hymestyn a gallwn anelu at bethau mawr yn enw Duw.


Ond cyn i ni gadw stori Hanna a'i ffeilio o dan 'gweddïau mawr a atebwyd gan Dduw', nodwn fod cannoedd eraill tebyg i Hanna nas atebwyd eu gweddïau. P'un ai gweddïau dros gymar neu fabi, dros un afradlon neu dros wellhad, nid oes prinder o weddïau a lefarwyd ac sy'n ymddangos fel pe na baent wedi derbyn ateb. Gall fod yn demtasiwn felly i droi oddi wrth Hanna, gan gredu nad oes ganddi hi unrhyw beth i'w ddweud wrth y rhai sydd a'u gweddïau fel petaent heb eu clywed.

Ond hoffwn ddarllen rhwng y llinellau, a mynd yn ôl i holi beth wyddom ni am Hanna yn y blynyddoedd cyn iddi gael ateb i'w gweddi. Cawn arwydd yn 1 Samuel 1:7, wrth ddarllen 'Dyma a ddigwyddai bob blwyddyn pan âi i fyny i dŷ'r ARGLWYDD; byddai'n [Peninna] ei phoenyddio a hithau'n [Hanna] wylo a gwrthod bwyta'. Fe welwn mai anghywir fyddai ystyried Hanna yn syml, fel un â phroblem ganddi a Duw yn ateb ei gweddi. Yn wir, wnaeth Duw ddim ateb ei gweddi am flynyddoedd lawer, ac er hyn roedd Hanna yn parhau i geisio presenoldeb Duw. Ar waethaf cywilyddio parhaus Pennina, y wraig arall, wrthwynebus, roedd yn parhau i fynd i'r deml. Ac ar waethaf cariad gŵr ymroddedig, roedd yn wylo'n hallt.

Fel gweinidog, does dim anos nag wynebu rhywun sydd yn brwydro â phroblem sy'n achosi poen calon dwfn a pharhaus iddynt heb fod yn gallu gwneud na dweud dim a fydd o gymorth. Dyma ein hagwedd gan amlaf tuag at fywyd – dangoswch chi'r problem ac fe wnawn ninnau y cwbl a allwn ni i'w datrys. Ac os na allwn ni ei datrys, fe rown wybod i chi am rywun sy'n medru. Rydym yn byw mewn oes o allu datrys y mwyafrif o bethau, ac fe fyddwn yn flin a rhwystredig pan na fedrwn wneud hynny. Yn y pen draw ni allwn atal corwyntoedd rhag dinistrio ynsoedd na daeargrynfeydd rhag difrodi pentrefi. Ni allwn wella pob cancr, nac atal y dirywiad a ddaw yn sgil clefydau fel clefyd Parkinson neu Alzheimer. Mewn byd lle gallwn gyflawni cymaint rydym yn gynddeiriog am y pethau na allwn eu cywiro neu eu gwella, ac yn y cynddeiriogi yna, fe allwn gollu unrhyw rith o heddwch.

Gwelsom yn agos i ddechrau ein hastudiaethau mai heddwch ei bresenoldeb oedd yr heddwch yr oedd Iesu'n ei addo. Gallwn feithrin y presenoldeb yma trwy aros yn agos at Dduw, at bobl Dduw ac at eglwys Dduw, nid oherwydd mai dim ond yn ein heglwys y mae Duw i'w ganfod ond oherwydd fod presenoldeb a gofal cariadus Duw yn cael eu dysgu a'u pwysleisio yno dro ar ôl tro. Rydym angen clywed hyn yn aml, ac wrth ei glywed rydym yn addoli fel cymuned.

Os ydych chi neu rywun yr ydych yn ei adnabod yn dioddef gyda chalon ddolurus, mae'n iawn wylo. Mae'n iawn dweud na allaf hyd yn oed fwyta am gyfnod, fel y



gwnaeth Hanna. Mae'n iawn dweud ein bod yn teimlo'n ddigalon neu'n ddi-rym, achos nid yw heddwch Duw bob amser yn golygu dileu'r pethau yma. Mae hyd yn oed yn iawn galaru am y pethau yma er bod gennynt riant, priod neu ffrind sydd â gofal drosoch. Nid yw bod mewn heddwch yn golygu gwadu bod yna adegau pan fyddwn yn teimlo'n gynddeiriog am bopeth rydym yn ei gasau am ein hamgylchiadau. Mae Duw yn ddigon mawr i gymryd ein poen a'n dicter – hyd yn oed pan maen nhw wedi'u hanelu ato fo – oherwydd mae yntau hefyd wedi eu profi. Daeth i mewn i'n byd ni; profodd y galar o glywed am ddiwyddiad ei gefnder Ioan, am farwolaeth Lasarus, fod ei ddisgyblion wedi syrthio i gysgu a bod ei Dad wedi ei adael. Dioddefodd y groes a'i phoen anhraethadwy, yn ogystal â'r profiad o edrych i lawr ar wyneb ei fam Mair wrth iddi hi ei wylio'n hongian yno.

Ac os mai chi yw'r un sy'n gofalu, yn caru, yr un a roddai unrhyw beth i leddfu poen calon yr un sydd dan eich gofal, mae'n rhaid i chithau dderbyn nad eich gwrthod chi y mae eu poen ond yn hytrach yn gwrthod yr hyn sy'n bygwth eu llethu.

Buaswn wrth fy modd yn cyfarfod Hanna, nid er mwyn medru gofyn iddi sut brofiad oedd sylweddoli ei bod yn feichiogi; bron y gallaf ddychmygu gorfoledd y funud honno. Yn hytrach, hoffwn ei holi am ei pherthynas â Duw yn y blynyddoedd blaenorol. Allaf i ddim credu ei bod hi'n teimlo'n heddychlon bob amser – ymhell o hynny. Ond fe wyddai rywbeth am bresenoldeb Duw, a wnaeth hi ddim ei wrthod oherwydd na allai feichiogi. Beth brofodd hi, felly? Beth wnaeth hi ei ddarganfod am Dduw yn y dyddiau dolurus yna? Dyna hoffwn i ei wybod.

GOHEBIAETH

'Ai dyma'r gorau?'

Annwyl Mr Olygydd,

Clywais y geirau hyn yn ddiweddar : 'Ai dyma'r gorau fedrwch chi weinidogion ac eglwysi wneud yng nghyfnod Covid sy'n parhau yn beryglus?' Mae'n gwestiwn mae'n rhaid i ni ei ystyried o ddi-fri, yn enwedig gydag achosion yn parhau mor uchel – yn enwedig yng Ngwynedd, a dyfodiad amrywiol yn newydd Omicron i Gymru.


Gofynnwyd y cwestiwn gan berson oedd wedi bod i angladd yn Amlogfa Bangor. Synnodd nad oedd neb yn cadw pellter, ond yr hyn â'i synodd fwyaf oedd i'r gweinidog ysgwyd llaw efo pobl ar ddiwedd yr oedfa gyda'i fwgwd yn hongian o dan ei geg.

Asesiad risg

Rhannodd gweinidog arall ei brofiad o ysgrifennydd gohebol yn ei wahodd i arwain addoliad ar y Sul.

Gofynnodd y gweinidog am gael gweld asesiad risg y capel, a buan y dealodd nad oedd llawer o drefn. Pan ofynnodd a oedd awyru digonol yn yr adeilad ac a fyddai'r gynulleidfa yn gwisgo mwgwd yr ateb gafodd oedd nad oeddent yn gwisgo mwgwd, ond byddent yn barod i wneud os byddai'n derbyn Sul. Ateb y gweinidog oedd, 'Ni fuaswn yn ystyried dod atoch pe na fyddai'r gynulleidfa yn gwisgo mwgwd ac os na fydd awyru digonol yn yr adeilad. Diolch am y gwahoddiad, ond ni fyddaf yn gallu derbyn.' Roedd gweinidog arall wedi derbyn gwahoddiad i arwain addoliad mewn capel oedd wedi gwneud asesiad risg manwl. Mynegodd y gweinidog mai ffolineb oedd y cyfan a mynnu sefyll i ysgwyd llaw efo pawb arall. Gallwch ddeall anfodlonrwydd yr aelodau i'r fath ymateb.

Rydym wedi byw efo pandemig Covid-19 ers 20 mis. Mae wedi bod yn gyfnod ofnadwy i rai, yn enwedig y rhai sydd wedi profi gwaelled neu golli anwyliaid. Mae wedi bod yn gyfnod hynod unig i eraill. Rydym yn teimlo yn rhwystredig ac yn hiraethu am 'sut roedd pethau.' Roedd llygedyn o



obaith dros yr haf; dechreuodd cymdeithas a gweithgareddau ailagor, ond gyda nodyn o ofal ar gyfer y gaeaf. Caniatawyd i ni fynd o amgylch ein gwaith a'n hamdden, ond gydag arweiniad ar sut i wneud hynny'n ddiogel mewn cyfnod o bandemig. Yn anffodus, ymddenygs nad ydym fel cymdeithas yn ddigon aeddfed na chyfrifol i ddilyn yr arweiniad hwnnw.

Er mwyn eraill

Cawn ein hannog i fod yn ofalus, nid er mwyn diogelu ein hunain yn unig, ond er mwyn eraill hefyd; yn enwedig y rhai mwyaf bregus yn ein cymdeithas. Mae'n wir fod cael dos llawn o'r brechlyn yn gwarchod rhag salwch difrifol i lawer, ond nid i bawb. Ydyn ni wedi troi yn gymdeithas mor hunanol na allwn barhau i ddilyn y canllawiau yn ofalus er mwyn gwarchod y mwyaf gwan? Mae arweiniad i eglwysi ar wefan Llywodraeth Cymru ac mae gan Cytûn doraeth o wybodaeth ar eu gwefan i gefnogi eglwysi i fod yn ddiogel ac i sicrhau diogelwch eu haelodau yn y cyfnod hwn.

Mae'n gyfrifoldeb arnom fel

gweinidogion ac eglwysi i roi arweiniad a gweithredu mor ofalus ag y gallwn yn y cyfnod hwn. Byddai'n dda gennym petai'r pandemig drosodd, ond yn anffodus nid dyna'r sefyllfa ar hyn o bryd. Felly daliwn ati i:

- sicrhau awyru digonol yn ein hadeiladau (Ie, hyd yn oed yn y gaeaf! Anogwch aelodau i wisgo'n gynnes)
- gadw pellter yn ein adeiladau er mwyn sicrhau na fydd gormod o bobl yn cymysgu tu fewn
- wisgo mwgwd pan fyddwn y tu fewn
- fynd am brawf PCR os oes gennym unrhyw symptomau neu os ydym wedi bod mewn cyswllt agos â rhywun sydd wedi profi'n bositif, ac i hunanynysu nes derbyn canlyniad y prawf PCR
- wneud profion sydyn (LFT) yn rheolaidd os ydym yn cyfarfod pobol drwy ein gwaith. Mae'n bosib cael profion LFT am ddim gan eich awdurdod lleol; mae bosib eu cael o'r llyfrgell leol neu o'r fferyllfa yn y rhan fwyaf o drefi.
- sicrhau hylendid dwylo da

Parchg J. Ron Williams, Caernarfon

AR DROTHWY'R NADOLIG

(Ger Cadeirlan Santes Werburgh, Caer)

Criw hwyrol yn ddiogel oddi mewn tu ôl i adlewyrchiad ffenestri lliw. Ysgol breifat leol a chynulleidfa ddethol yn dathlu Nadolig yn gynnar cyn gwasgar myfyrwyr.

Ond pan ddaeth 'Hark the Herald Angel Sing' roedd rhaid i fforddolion a grwydrai adref â'r rhew yn bygwth, wrando.

Tawodd stiletos y merched giglyd ar eu ffordd i'r Clwb. Cododd ffrîwyr selsig stondinau'r Ffair Nadolig eu golygon o'u gorchwylion. Oedi, heb fod isio i'r garol ddod i ben.

Clustfeinio ar leisiau ac organ grynedig, desgant yn dod drwy'r muriau, cadeirlan a oedd ar fin ffrwydro hyd y stryd farugog.

Rhyfeddu fel yr arferem wneud yn blant fel petaem yn gweld angylion, a bod y seren lachar ar y Grîn yn Seren go iawn. Am ennyd roeddem mewn bro


sy'n gynefin â syfrdan bugeiliaid, a brenhinoedd llesg yn dechrau ar daith at grud Baban.

Am ychydig roedd y drysau trwm sy'n gwahanu fel siffrwd adenydd angylion; ac alaw yn ffrydio i ganol dynoliaeth fregus, yn datgan fod Cariad yn medru gorchfygu'r byd.

'Clywch lu'r nef yn seinio'n un Henffych eni Ceidwad dyn.'

Aled Lewis Evans

(Allan o Shalôm Tachwedd/ Rhagfyr 2021, Capel y Groes ac Ebeneser, Wrecsam)



Barn Annibynnol

O deuwch ffyddloniaid!

Mae'n dymor yr ŵyl fawr unwaith eto. Tu allan i Downing Street, mae'n debyg mai tenau iawn fydd y partiön eleni. Mae'n debyg y bydd hi hefyd yn flwyddyn arall pan fydd cenhedlaeth o blant yn dod i'r casgliad fod Iesu Grist yr un mor ddychmygol o *sci-fi* ag yw Siôn Corn. Bydd teuluoedd ar draws y wlad wedi twyllo'u plant am rai blynyddoedd hwyliog, a bydd cenhedlaeth arall yn deffro i realiti ffynhonnell eu hanrhegion ac wedyn yn mwynhau hwy! y twyll ar y genhedlaeth nesaf. Na, ni ddaeth yr anrhegion lawr y simdde, ac na, ni lwyddodd un dyn mewn gwisg goch i ymweld â phob cartref yn y byd yn ystod yr un noson ryfeddol. Bydd plant 8 neu 9 oed yn mhobman yn pwslo sut fuon nhw mor naïf a chredu yn Siôn Corn tra eu bod yn mwynhau gweld eu brodyr neu chworydd bach yn dal i gredu. Bydd hi efallai flwyddyn neu ddwy arall cyn i'r un plentyn sylweddoli fod derbyniad llythrennol trwch yr eglwys fodern wrth gyflwyno storïau'r Nadolig hefyd yn swnio fel ffantasi tebyg iawn i ffantasi Siôn Corn.



Stori'r Nadolig

Prin fydd plant yn cael esboniadau mai storïau wedi eu hysgrifennu tua hanner canrif wedi bywyd Iesu yw storïau'r Nadolig. Does dim sôn amdany'n nhw yn llythyrau Paul, y llynyddiaeth gynharaf yn y Testament Newydd. Does dim sôn amdany'n nhw yn yr efengyl hynaf o'r 4 sydd yn ein Testament Newydd. Ac mae stori Nadolig pob ysgol Sul ac ysgol yn rhoi doethion a bugeiliaid yn yr un stabl, er nad yw'n nhw'n ymddangos ar y cyd yn

efengylau Mathew a Luc. Y peth rhyfedd yw y bydd yr holl grefydd ar y cyfryngau yn osgoi cyflwyno'r efengylau fel storïau a luniwyd dri chwarter ffordd drwy'r ganrif gyntaf Oed Crist – a'u bod wedi eu llunio i gyflwyno negeseuau hynod wleidyddol. Mae tywysog tangnefedd un efengyl yno i herio'r ymerawdwr yn Rhufain oedd yn honni mai ef oedd tywysog tangnefedd wedi dod â'r Pax Romana i Fôr y Canoldir. Roedd yr ymerawdwr hefyd yn cael ei alw'n 'fab Duw' gan ei ddilynwyr. Mae storïau'r ffoi i'r Aiffnt yn yr efengyl arall a herio Herod, ar ôl cyflwyno'r llinach sy'n gosod Iesu fel disgynydd i fawron cenedl Israel, gyda chysgod Moses tu ôl i storïau'r Iesu'n faban. Roedd geni o forwyn hefyd yn bur gyffredin yn storïau'r cyfnod yn y rhanbarth pan oedd awduron yn ceisio esbonio mawredd unigolyn o bwys.



Stori'r geni

Mae'n ddiwylliant cyfan wedi ei drwytho yn 'y stori', heb ystyried yn gyffredinol yr hyn fu'n greiddiol iddynt fel storïau pur wahanol yng nghydestun heriau cenedl Israel yn ystod cyfnod Iesu. Ydyw hi'n syndod felly fod ein plant yn deffro i ffantasi Siôn Corn yn 8 oed, ac erbyn eu bod nhw'n 11 oed maen nhw wedi eu dadrithio gan ddiwylliant eglwysig sy'n siarad am 'hanes y geni' yn hytrach na 'storïau'r geni' a phrin yn sôn am eu pwrpasau hanfodol? Efallai byddai bod yn onest mai 'storïau' sydd gyda ni yn help mawr i'n pobl ifanc a'n henoed, a byddai canolbwyntio ar eu pwrpasau yn fodd i ddeffro'r eglwys gyfan i agenda gwirioneddol radical, bywiol, cynhwysol a chariadus yr Iesu sydd wedi ei gyflwyno i ni.

Boed i'r Nadolig hwn fod yn un sy'n ein hatgyfnerthu yn ein ffydd yn yr hwn a newidiodd galendr y byd, ac sy'n parhau i newid bywydau heddiw. Nadolig Llawen!

Geraint Rees

(Nid yw cynnwys y Barn Annibynnol o reidrwydd yn adlewyrchu safbwynt Undeb yr Annibynwyr na'r tîm golygyddol.)

Geir-iau

Warhammer

Dros y misoedd diwethaf, dwi wedi ailgydio mewn hobi oedd gen i pan oeddwn i yn fy arddegau cynnar sef paentio. Dyna i chi hobi diddorol dwi'n eich clywed yn dweud. Ond nid unrhyw fath o baentio yw'r hobi hwn, ond paentio modelau bach o ryfelwyr o fyd ffantasi Warhammer. Unwaith i chi orffen paentio'r model i safon foddhaol, y cam nesaf ydy ffeindio ffrind o'r un meddwl - sydd yn casglu byddin o fath gwahanol i chi - a mynd ati i frwydro yn erbyn eich gilydd gan ddefnyddio dis, pren mesur a rhith o reolau technegol i ddarganfod y buddugwr.

Bydysawd amgen

Efallai eich bod yn tybio pam fy mod yn rhannu'r hobi neilltuol gyda chi heddiw. Cwestiwn da. Un o'r rhannau diddorol am Warhammer ydy'r ffughanes sydd wedi cael ei greu i gyd-fynd â'r modelau. Mae'r gêm wedi ei leoli 40,000 o flynyddoedd yn y dyfodol mewn bydysawd sydd bellach wedi ei rwygo'n ddarnau gan ryfel. Yn wir, mae'r bydysawd wedi cael ei greu ar gyfer rhyfela. Rhyfel sydd yn cymhell y cymeriadau i barhau tuag at fuddugoliaeth neu ddial. Rhyfel, casineb a chybydd-dod sy'n cyfeirio gweithredoedd y gwahanol fyddinoedd yn erbyn ei gilydd. Ym mydysawd ffuglennol Warhammer, does dim dianc rhag rhyfel, na thrais, na chasineb gan mai dyna sy'n diffinio gweithredoedd y bodau at ei gilydd.

Gadewch i mi oedi am ennyd yma i egluro nad y rhan yma sy'n cymryd fy mryd! Hoffi paentio'r modelau a chwarae gêm efo ffrind ydw i!

Arfwisg

Tybed ydym ninnau'n gweld ein byd ni fel byd Warhammer weithiau? Wrth edrych ar y newyddion ac wrth i ni gasglu profiadau bywyd, mae'n demtasiwn i fynd i gredu fod y tristwch a'r boen yn y byd yn drech na phob gobaith a bod dim dianc oddi wrth faglau pechod. Yn wyneb hyn, fel Cristnogion, dyma'r hyn sydd gennym ni: fod yr Arglwydd hollalluog wedi paratoi arfwisg i ni wisgo yn y frwydr (Effesiaid 6:11).

parhad ar y dudalen gefn

Ertlyglau, llythyrau at y Prif Olygydd:

Y Parchg Ddr Alun Tudur
39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan,
Caerdydd, CF23 9BS
Ffôn: 02920 490582
E-bost: aluntudur@btinternet.com

Golygyddion

Y Parchg Iwan Llewelyn Jones
Fronheulog, 12 Tan-y-Foel,
Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd,
LL49 9UE
Ffôn: 01766 513138
E-bost: IwanLlew@aol.com

Alun Lenny
Porth Angel, 26 Teras Picton
Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX
Ffôn: 01267 232577 /
0781 751 9039
E-bost: alunlenny@hotmail.co.uk

Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:

Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc
Busnes Glanyrafon, Bro Abertawe
ABERTAWE SA7 0AJ
Ffôn: 01792 795888
E-bost: undeb@annibynwyr.cymru

Dalier Sylw!

Cyhoeddir yr Adran Gydenwadol
gan Bwyllgor Llywio'r Adran
Gydenwadol ac nid gan Undeb yr
Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a
wnele Golygyddion Y Tyst ddim â
chynnwys yr Adran Gydenwadol.

Geir-iau – parhad



Ymarfer atgyfodiad

Des i ar draws darn o farddoniaeth yn ddiweddar sef, 'Manifesto: The Mad Farmer Liberation Front' gan Wendell Berry. Trwy'r gerdd, mae Berry yn cyflwyno rhestr – gweithgaredd ar ôl gweithgaredd sydd, yn ei dyb o, yn ffyrdd o gyfoethogi'r byd – caru'r Arglwydd, caru'r byd, caru person sydd ddim yn ei haeddu, plannu coed heb y disgwyliad o'u gweld yn aeddfedu. Ymlaen aiff y rhestr nes cyrraedd y llinell olaf sy'n crynhoi ei neges: 'Practice resurrection.'

Angor bywyd

Dyma ran allweddol o neges Crist i ni – byw yr Atgyfodiad yn ddyddiol. Hynny ydy, byw ein bywydau yng ngoleuni'r ffaith fod Mab Duw wedi concro marwolaeth ei hun i roi bywyd i ni. Y neges i ni Gristnogion ydy i fyw mewn gwrthryfel ag arferion y Byd, i fyw pob dydd – pob moment o bob dydd – yn hyderus yn y gobaith sicr sydd gennym ni yng Nghrist. Mae'r gobaith hwn yn obaith sicr – mae fel angor i'n bywydau ni, yn gwbl ddiogel. 'Mae Iesu wedi mynd o'n blaenau ni, tu ôl i'r llen, i mewn i'r nefoedd, sef y cysegr mewnol lle mae Duw. Ydy, mae Iesu wedi mynd i mewn yno ar ein rhan ni.' (Hebreaid 6:19,20)

Mae ein gobaith ni yn sicr, felly dewch i ni fyw ein bywydau yn nerth y sicrwydd yna.

Gwion Dafydd

Yr Adfent a'r paratoi

Mae nifer fawr wrthi'n paratoi ar gyfer y Nadolig. Ers wythnosau, mae hysbysebion di-ri ar y teledu yn ein denu i brynu anrhegion a pharatoi ar gyfer yr ŵyl o ddatlhu'r Nadolig. Mae hyn yn hollol ddealladwy ar ôl bron dwy flynedd o'r pla erchyll. Ond i ni Gristnogion, mae tymor yr Adfent yn golygu paratoi gwahanol gan ganolbwyntio ar y geni gwyrthiol a dyfodiad y Baban Iesu.

Dros ganrifoedd lawer, bu'r Iddewon yn breuddwydio, yn disgwyl ac yn dyheu am hynny ac am ddyddiau gwell. Mae hyn hefyd yn briodol i ni ei ystyried yn y cyfnod heriol rydym yn eu wynebu yn awr. Ond mae'r amhosibl yn digwydd yn hanes Elisabeth a'r Forwyn Fair. Yn hanes Elisabeth, mae Ioan yn cael ei eni a hithau yn ei henaint.

Merch ifanc yn ei harddegau cynnar oedd Mair, roedd yn feichiog ac esgorodd ar ei mab, Iesu, Immanuel, hynny yw Duw gyda ni. Ie, yr hwn a dyfodd yn arweinydd newydd yn llawn cariad, trugaredd a chydymdeimlad, ein Gwaredwr a'n Eiriolwr. Do, daeth grym creadigol Duw ar waith ym mywyd Mair.

Boed i dymor yr Adfent eleni fod yn gyfle i ni i baratoi a chanolbwyntio ar wyrth y geni a hefyd i freuddwydio, i ddyheu ac i obeithio am ddyddiau gwell, beth bynnag yr anawsterau a rhwystrau'r pandemig.

Boed i'r goleuni lewyrchu yn llachar a threchu'r tywyllwch yn ein bywydau.

Malcolm Thomas



Ymhlith holl ryfeddodau'r nef
hwn yw y mwyaf un
gweld yr anfeidrol, ddwyfol Fod
yn gwisgo natur dyn.

